**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2024 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M S Tribe | K M Griffiths | Y V Jardine |
| S M Jones | S Joy | W G Lewis |
| C A Holley | J W Jones | M W Locke |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Phillipa Elliott | Rheolwr Ymarfer Cyfiawnder Ieuenctid |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |
| Helen Williams | Prif Swyddog - Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): V A Holland a/ac E T Kirchner

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Holley fuddiant personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Adroddiad Blynyddol am Gwynion i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd / Gwasanaethau I Oedolion 2022-23**

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal a Sarah Lackenby, Pennaeth Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid yn bresennol i friffio'r Panel ac i ateb cwestiynau a dywedwyd bod lefel sicrwydd gyffredinol 'Sylweddol' wedi'i rhoi gan yr archwiliad mewnol o gwynion a gynhaliwyd yn 2022-23.

Pwyntiau Trafod:

- Ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gwelwyd cynnydd yn nifer y cwynion cam 1 yn bennaf oherwydd cynnydd yn y galw a'r pwysau ar wasanaethau a arweiniodd at oedi.
- Yn y Gwasanaethau i Oedolion, roedd 27% o gwynion cam 1 gan un person ar yr un achos. Mae'n sefyllfa gymhleth iawn.
- Roedd cynnydd enfawr o 128% mewn canmoliaethau ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a chynnydd sylweddol o 97% ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Gofynnodd y panel a oes fersiwn o'r polisi cwynion sy'n addas i blant . Bydd Aelod y Cabinet a swyddogion yn mynd ar drywydd y syniad hwn gyda Swyddogion Hawliau a Chyfranogiad Plant y Gyfarwyddiaeth.
- Awgrymodd y panel hefyd y byddai fersiwn hawdd ei darllen, a fyddai'n addas i bobl ag anableddau dysgu, yn ddefnyddiol.

6 **Papur briffio ar y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid**

Roedd Helen Williams, Prif Swyddog Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc a Phillipa Elliott, Rheolwr Ymarfer Cyfiawnder Ieuenctid yn bresennol i roi trosolwg o'r Gwasanaeth gan gynnwys diweddariad ar ddatblygiadau a chynnydd.

Pwyntiau Trafod:

- O ran gwaith ataliol, bydd y cyllid ar gyfer y Prosiect *Turnaround* yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Mae'r prosiect wedi gweithio gyda 47 o bobl ifanc ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 97. Mae'r Gwasanaeth wedi ceisio datblygu mwy o waith grŵp ac mae'n gobeithio y bydd yn gallu parhau i ddefnyddio'r ymyriadau a ddatblygwyd er budd pobl ifanc eraill.
- Dywedodd y panel y byddai recriwtio grwpiau cyfoedion o fudd i rai o'r plant hyn oherwydd bod pwysau grŵp cyfoedion yn wych ar rai oedrannau. Trwy'r Fforwm Cyfranogiad, sy'n cael ei ddatblygu, bydd cyfleoedd i wneud hyn mewn ffordd ddiogel a chyda chefnogaeth.
- Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth swyddfa yng nghanol y ddinas ac mae'r ganolfan cyfiawnder ieuenctid wedi'i lleoli ar stad ddiwydiannol. Y gobaith yw cael un adeilad gyda lle swyddfa ond hefyd lle ar gyfer gwaith uniongyrchol a gwaith creadigol, gyda mynediad teithio da.
- Holodd y panel pa fath o waith/weithgareddau y mae'r Gwasanaeth yn eu gwneud gyda phobl ifanc i'w hannog i gadw draw o wasanaethau'r llys.
- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yn Abertawe ac mae gan y Gwasanaeth brosiect peilot sy'n gweithio gyda rhai ysgolion cynradd lleol sy'n

darparu gwersi addysgiadol difyr i gyfleu'r neges. Y bwriad yw ei gyflwyno i ysgolion cynradd eraill a chyflwyno rhaglen ar gyfer ysgolion cyfun.

- Un mater y mae'r Gwasanaeth yn parhau i'w wynebu gyda phobl ifanc sy'n dod allan o'r ddalfa yw argaeledd tai. Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ifanc y Gwasanaeth y sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae nifer o ddarparwyr byw â chymorth y mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos â nhw, ond mae argaeledd yn broblem. Cytunodd y panel fod Byw â Chymorth i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yn fater y mae angen iddynt ailedrych arno.
- Mae Holiadur Ymwybyddiaeth o Droseddau Cyllyll wedi cael ei ddatblygu. Pwrpas yr holiadur yw cael dealltwriaeth o brofiadau gwahanol pobl ifanc i arwain ymyriadau'r Gwasanaeth.
- Mae'r panel yn falch o weld sut mae'r Gwasanaeth wedi gwella o'r sefyllfa wael yr oedd ynddi bedair neu bum mlynedd yn ôl ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Camau Gweithredu:

- Eitem ar 'Byw â Chymorth i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal' i'w hychwanegu at y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

## 7 **Monitro Perfformiad**

Roedd Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol i friffio'r Panel ar yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer mis Ionawr 2024 a dywedodd fod y duedd fel y disgwyliwyd yn y mis ar ôl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Pwyntiau Trafod:

- Nododd y Panel sut mae rhai tueddiadau yn tueddu tuag at y ffordd anghywir a chytunodd aelodau'r Panel y bydd angen iddynt gadw llygad ar hyn.
- Holodd y Panel sut y cyfrifir y terfynau hyder uchaf ac isaf ar y graffiau tueddiad. Cadarnhawyd eu bod yn seiliedig ar ffigurau hanesyddol. Os yw'r ffigurau'n aros o fewn y bandiau, mae'n ddangosydd y gall y Gwasanaeth ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol o fewn yr adnoddau presennol ond y bydd yn cael amrywiadau.
- Roedd y Panel yn falch iawn o glywed sut mae'r Academi yn perfformio ac yn credu ei fod yn arloesol iawn.

## 8 **Cynllun Waith 2023-24**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm